

ECAD5014C – Ysgrifennu'r aseiniad – Rhai awgrymiadau defnyddiol!

Pwyntiau i'w cofio

- Dylech geisio ysgrifennu'r aseiniad yn y trydydd person, amser gorffennol, e.e. 'Wrth ddefnyddio cyfweiliadau cafwyd ymateb...' yn hytrach na, 'Wrth ddefnyddio cyfweiliadau cefais ymateb.'
- Dylech ysgrifennu'r aseiniad mewn arddull ffurfiol. Peidiwch a defnyddio geiriau wedi eu cwtogi megis 'dwi' na thalfyriadau llaw fer megis 'e.e.'

Enghreifftiau o ymadroddion addas y gellir ei defnyddio wrth ysgrifennu'r aseiniad.

Rhan 1- Cyflwyniad

- Bwriad yr aseiniad yw
- Nod/ Amcanion yr ymchwil yw...
- Dyma'r prif gwestiynau/faterion y bydd yr aseiniad yn eu trafod: (a), (b) ac (c).
- Maes o bwysigrwydd cynyddol i addysg ysgolion cynradd yw
- Mae'n mynd yn fwy ac yn fwy anodd anwybyddu'r ffaith mai...
- Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw...
- Wrth wraidd addysgu a dysgu yw'r cysyniad o ...
- Mae... yn ganolog i'n dealltwriaeth o sut mae ...
- Yn gyntaf bwriedir trafod yr hyn a ddywedwyd eisoes am... gan gyfeirio at ...
- Yn ail, cyfeirir at y fethodoleg gan drafod dyluniad yr ymchwil...
- Yn drydydd, trafodir y data a gasglwyd
- Yn olaf...

Rhan 2 – Adolygiad Llenyddiaeth

- Bwriedir trafod ... gan gyfeirio yn gyntaf at..., yna... ac yn olaf...
- Mae corff helaeth o lenyddiaeth wedi ymchwilio i...
- Er enghraifft...
- Dywed ... fod..
- Creda... fod... yn...
- Awgryma Jones (2019) y dylai...
- Cenfogir hyn gan Williams (2020) pan ddywed y...
- Er enghraifft...
- Dengys Jones (2020) mai...
- Dadleua Phillips (2020) mai..
- Honna Hughes (2020) mai...
- Nododd Rees (202) ...
- Noda Williams (2020) mai... yw achosion pwysicaf...
- Mewn astudiaeth bwysig arall, canfu Hughes (2020) bod ...
- Rhestra Thomas (2020) bum rheswm pam...
- Rhydd Bowen (2020) ddadansoddiad manwl o...
- Daw Ryder (2020) i'r casgliad mai...
- Awgryma Jones (2020) mai...
- Awgryma tystiolaeth ddiweddar mai...
- Mae nifer o awduron megis... wedi herio honiad Jones (2020) ar y sail...
- Fodd bynnag, tynna Jones (2020) sylw at y ffaith fod...

- Felly i grynhoi...

Rhan 3 - Methodoleg

- Bwriedir trafod y fethodoleg ac egwyddorion moeseg yn yr adran hon...
- Defnyddiwyd amrywiaeth o offer ymchwil...
- Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau ymchwil i ateb y cwestiwn ymchwil...
- Mae i bob un ei fanteision a'i anfanteision.
- Un o gryfderau....ydy..
- Ar y llaw arall...
- Fodd bynnag, mae... yn un o gyfyngiadau ...
- Cefnogir hyn gan...
- Dywed... mai un o gryfderau ... yw...
- Penderfynwyd mai'r agwedd orau i'w fabwysiadu at ddibenion yr ymchwil hwn oedd.... Pragmataidd..
- Penderfynwyd cynnal cyfweiliadau lled-strwythuredig... gyda
- Dosbarthwyd holiaduron...
- Credir y byddai hyn yn creu cyfuniad o ddata ansoddol a meintiol...
- O ganlyniad gellir triogli....
- Bydd hyn yn cynhyrchu data mwy dibynadwy a ...
- Ystyriwyd yn ofalus y materion moesegol wrth ddylunio'r ymchwiliad.... BERA...
- Cwblhawyd ffurflen foeseg ...
- Cynhaliwyd yr ymchwil mewn... gyda...

Rhan 4 – Canlyniadau a Thrafodaeth

- Bwriedir trafod y data a gasglwyd ac hefyd effeithiolrwydd yr offer ymchwilio.
- Cafwyd cyfuniad o ddata ansoddol a meintiol...
- Yn gyntaf bwriedir trafod... yna... ac yn olaf...
- Dengys Ffigwr 3...
- Cymhara Tabl 4...
- Cyflwynia Tabl 2..
- Rhydd Tabl 5.. drosolwg.. o..
- Mae'n amlwg o'r tabl hwn mai...
- Yr hyn sy'n ddiddorol yn y data hwn...
- Wrth ddefnyddio'r cyfweiliad gwelwyd...
- Anhawster arall oedd...
- Sylweddolwyd nad oedd...
- Gwelwyd bod...
- I'r gwrthwyneb...
- Awgryma hyn...
- Diddorol oedd gweld ...

Rhan 5- Casgliad

- Bwriedir crynhoi y canlyniadau a gafwyd o'r adolygiad llenyddiaeth a'r ymchwil yn y dosbarth yn y rhan... a llunio casgliadau.
- Nod yr ymchwil oedd ceisio canfod beth oedd...
- Mae'r astudiaeth hon wedi dangos mai...
- Dangoswyd hefyd...

- Awgryma'r canfyddiadau hyn, at ei gilydd, mai...
- Un o'r canfyddiadau mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r astudiaeth hon yw...
- Mae i ganfyddiadau'r astudiaeth hon nifer o oblygiadau pwysig o ran ymarfer yn y dyfodol...
- Sylweddolir pwysigrwydd ...
- Ehangwyd gwybodaeth a dealltwriaeth bersonol o ...
- Bwriedir defnyddio...yn y dyfodol.. i wella arfer arfer proffesiynol yn y dosbarth..
- O ganlyniad i'r astudiaeth datblygwyd... proses ymchwil..